# DEALL DELWEDDAU YN 'FERN HILL'

Beth, yn eich barn chi, yw ystyr agosaf y delweddau hyn yn y gerdd 'Fern Hill'?

1. Ger y tŷ seinber
   a) Roedd y tŷ yn canu
   b) Roedd côr yn ymarfer yn y ffarm
   c) Roedd sŵn hapus o gwmpas y ffermdy

2. Mor hapus â glesni'r borfa
   a) Roedd gweld porfa las yn fy ngwneud yn hapus
   b) Porfa ifanc yw porfa las, felly roedd y cyfnod ifanc yn un hapus
   c) Roedd y borfa yn lliwgar

3. Mor anrhydeddus oeddwn ymhlith wagenni
   a) Roeddwn yn cael eistedd yn uchel ar ben y wagenni gwair ac yn teimlo'n bwysig
   b) Enillais wobr anrhydeddus am fod ar dop wagen
   c) Roedd pawb yn chwifio arna i a phlygu lawr o fy mlaen

4. Fel y'm gwnaed yn dywysog y trefi afalau
   a) Roeddwn yn uchel i fyny wrth eistedd ar ben y wagenni wrth basio'r coed afalau
   b) Fi fwytodd yr holl afalau
   c) Enillais wobr am bigo afalau

5. A phan o'n i'n laslanc ysgafnfryd
   a) Pan o'n i'n fachgen sâl a thenau
   b) Pan o'n i'n ifanc a heb unrhyw ofidiau
   c) Pan o'n i wedi peintio fy wyneb yn las

6. A minnau newydd fy mathu
   a) Ro'n i'n cael bath bob nos
   b) Ro'n i fel petawn i newydd gael fy nghreu, fel darn o arian
   c) Ro'n i'n fath newydd o berson

7. Atseiniai'r Saboth (dydd Sul) dioglyd yng ngraean y nentydd cysegredig
   a) Roedd byd natur fel eglwys, ac roedd dydd Sul yn araf
   b) Roedd clychau yn canu yn y nant
   c) Roedd sŵn dydd Sul i'w glywed yn sŵn y nant

Nawr ysgrifennwch 2 esiampl o ddelweddau sy'n cyfleu rhyw atgof o'ch gwyliau haf chi.

1

2